**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
—
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@enedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol
Llywodraeth Cymru

25 Hydref 2023

Annwyl Mick

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): cyd-ddibyniaeth â'r Bil cwotâu rhywedd a ddisgwylir

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Hydref 2023 yn nodi y gallwn ddisgwyl cael ymateb gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil cwotâu rhywedd sydd ar ddod, i'm llythyr dyddiedig 26 Medi 2023.

Rydym yn deall y gallai'r Dirprwy Weinidog fod mewn gwell sefyllfa i ymateb i rai o fanylion y cynigion sydd i'w cyflwyno yn y Bil a ddisgwylir, ac edrychwn ymlaen at gael ei hymateb erbyn 3 Tachwedd 2023.

Nodaf, fodd bynnag, wrth ysgrifennu atoch, roeddem yn ymwybodol o'ch rolau amrywiol fel Cwnsler Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb am hygyrchedd cyfraith Cymru; fel Gweinidog y Cyfansoddiad, cyfrifoldeb cyffredinol am bolisi etholiadau; ac fel yr Aelod sy'n gyfrifol am Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), cyfrifoldeb am sicrhau y bydd eich Bil yn gweithio'n effeithiol o fewn y fframwaith deddfwriaethol cyffredinol a bod y memorandwm esboniadol a'r asesiad effaith rheoleiddiol sy'n cyd-fynd ag ef yn darparu'r amcangyfrifon a'r wybodaeth orau i lywio gwaith craffu gan y Senedd a chan randdeiliaid.

Mae cyflwyno dau ddarn o ddeddfwriaeth sydd â chysylltiadau agos o fewn cyfnod byr o amser yn anarferol. Mae'r her o graffu ar y cyntaf o'r darnau cysylltiedig hyn o ddeddfwriaeth heb weld yr ail, hyd yn oed ar ffurf drafft, yn sylweddol.

Edrychwn ymlaen, felly, at gael eich ymateb i gwestiynau 2(c) a (d) a nodir yn fy llythyr dyddiedig 26 Medi 2023 (a atgynhyrchir isod er hwylustod):

2(c) Asesiad o'r goblygiadau y gellir yn rhesymol ddisgwyl a fydd i'r polisi arfaethedig o ran gweithredu a rhoi'r system etholiadol a gynigir ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar waith, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gyflwyno rhestrau ymgeiswyr i swyddogion canlyniadau etholaeth (adran 7(1)), hyd rhestrau ymgeiswyr (adran 7(3)), a chymhwysedd ymgeiswyr i lenwi seddi gwag (adran 9)).

2(d) Gwybodaeth am sut yr ystyriwyd goblygiadau o'r fath wrth asesu'r effeithiau ariannol a'r effeithiau eraill yn y Memorandwm Esboniadol ar y Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Dylai hyn gynnwys manylion ynghylch pa rai o'r asesiadau ariannol neu'r asesiadau effaith eraill a fyddai wedi bod yn sylweddol wahanol pe bai darpariaeth ynghylch cwotâu rhywedd wedi'i chynnwys ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ac, os felly, sut.

Byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn 3 Tachwedd 2023.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

cc Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Huw Irranca Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.